Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyllidebu ar gyfer y galw? Defnyddio data i gynllunio gofal preswyl i oedolion

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Awst 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol ag adran 17(2)(d), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol fod yn fodlon bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Gallai ein canfyddiadau hefyd lywio gwaith yr Archwilydd Cyffredinol wrth asesu camau'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant, yn unol ag Adran 15(1)(b) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid iddo beidio â bod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru, a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes angen unrhyw help arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn
fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni yn post@archwilio.cymru

Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg – byddwn yn ymateb gan ddefnyddio'r un iaith â chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Prif Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

# Cynnwys

Ciplun archwiliad 4

Ein canfyddiadau 6

Atodiadau 12

1 Ynglŷn â'n gwaith 13

# Ciplun archwiliad

1 Aethom ati i adolygu a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) yn defnyddio data i gynllunio cyllidebau ei wasanaeth gofal preswyl i oedolion (ARC) yn effeithiol. Ystyriodd yr archwiliad a oes gan y Cyngor y wybodaeth sydd ei hangen arno i gynllunio'n dda. Ystyriodd hefyd a yw'n defnyddio data i'w helpu i gynllunio'r adnoddau y bydd eu hangen arno i ateb y galw am y gwasanaeth, a sut y mae'n gwneud hynny, ac i'w helpu i fod yn ariannol gynaliadwy yn y tymor hir. Adolygodd hefyd a yw'r Cyngor yn gwybod a yw ei gynllunio yn effeithiol ai peidio.

2 Cwblhawyd yr adolygiad hwn ar draws holl gynghorau Gogledd Cymru rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2026.

## Pam mae hyn yn bwysig

3 Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys bob blwyddyn.[1] Mae'r broses hon yn cynnwys rhagweld yr incwm a'r gwariant y bydd cyngor yn eu hwynebu er mwyn ateb y galw am wasanaethau a gofynion cyfreithiol. Rhaid i gynghorau wneud hyn yn unol â'r adnoddau sydd ar gael ac ystyried pwysau allanol, fel chwyddiant. Gall cynghorau ddefnyddio amrywiaeth o ddata ariannol a data perfformiad i'w helpu i wneud hyn. Gall hyn gynnwys ei wariant yn y gorffennol, a'i dueddiadau disgwyliedig o ran galw, chwyddiant a dyraniadau cyllid.

[1] Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

4 Ar draws cynghorau, mae nifer o wasanaethau yn gwario mwy na'r gyllideb mewn meysydd lle mae'r galw am wasanaethau yn codi costau, megis gofal cymdeithasol. Gall diffyg cynlluniau cadarn sy'n seiliedig ar y galw arwain at bwysau ariannol, ansawdd gwasanaeth is, neu gyfleoedd a gollwyd i gefnogi'r rhai y mae arnynt angen cymorth fwyaf. Bydd mynd i'r afael â hyn yn allweddol i wella cynaliadwyedd ariannol a chanlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau.

## Yr hyn a ganfuom

5 Mae gan y Cyngor y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ei hangen arno i gynllunio ar gyfer gwasanaethau seiliedig ar alw. Mae'n defnyddio data'n dda i gynllunio cyllidebau'r dyfodol ac yn adolygu perfformiad i wella cywirdeb ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Er iddo wario mwy na'r gyllideb ar gyfer gofal preswyl i oedolion dros y tair blynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi gwella ei ddull o’r naill flwyddyn i’r llall, rhywbeth sy'n amlwg wrth wella cywirdeb y gyllideb.

## Yr hyn rydym yn ei argymell

6 Nid ydym yn cynnig unrhyw argymhellion i'r Cyngor yn sgil ein hadolygiad o'r defnydd o ddata wrth bennu'r gyllideb ar gyfer ARC.

# Ein canfyddiadau

## Mae'r Cyngor wedi gwella cywirdeb ei gyllideb rhwng 2023-24 a 2025-26, gyda gorwariant yn lleihau

7 Ers 2023-24, mae'r Cyngor wedi gwario £10.8 miliwn yn fwy na'i gyllideb ar gyfer gofal preswyl i oedolion. Mae hyn wedi rhoi pwysau ychwanegol ar gyllid y Cyngor. Mae'r cyfrifon archwiliedig diweddaraf (2024-25) yn dangos bod cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn £33.8 miliwn.

8 Mae'r Cyngor wedi pennu cyllideb fwy cywir bob blwyddyn, felly mae'r swm a wariwyd dros y gyllideb wedi lleihau. Mae gwella cywirdeb y gyllideb yn helpu'r Cyngor i reoli ei adnoddau ac yn lleihau'r pwysau ar gronfeydd wrth gefn.

9 Fel gwasanaeth seiliedig ar alw, mae'n heriol i'r Cyngor ragweld a chynllunio'n gywir. Rydym yn cydnabod, o ganlyniad, y byddai'n afrealistig i gynghorau gyrraedd eu cyllidebau gofal preswyl i oedolion yn union. Fodd bynnag, mae cael yr amcangyfrif gorau, cadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i lywio’r gwaith o gynllunio'r gyllideb, yn helpu cynghorau i leihau gorwariant neu danwariant.

**Arddangosyn 1: gwariant refeniw ar ofal preswyl i oedolion o'i gymharu â'r gyllideb, 2023-24 i 2025-26 (£’000)**

| | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cyllideb | £24,182 | £29,081 | £34,715 | £87,978 |
| Gwariant gwirioneddol | £29,232 | £33,036 | £36,519 | £98,786 |
| Gwahaniaeth | £5,050 drosodd | £3,955 drosodd | £1,804 drosodd | £10,809 drosodd |
| Gwahaniaeth canrannol | 20.9% drosodd | 13.6% drosodd | 5.9% drosodd | 13.2% drosodd |

Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Mae gan y Cyngor y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ei hangen arno i gynllunio ar gyfer gwasanaethau seiliedig ar alw

10 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'r math o wybodaeth sydd ei hangen i bennu cyllidebau o fewn ARC. Mae'r wybodaeth yn cynnwys:

- Adroddiad Laing Buisson ar wir gost gofal at ddibenion pennu ffioedd;
- Dadansoddiad o dueddiadau penodol i Gonwy ers 2001;
- data o wasanaethau a allai arwain at yr angen am ARC, megis gwasanaethau anabledd a gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed;
- rhagamcanion galw am wasanaethau cenedlaethol a rhanbarthol gan gynnwys data Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru (RPB);
- Amcangyfrifon chwyddiant wedi'u rhannu yn ôl math o fewnbwn a chategori gofal.

11 Mae'r Cyngor yn casglu'r data hwn yn rheolaidd, sy'n golygu bod ganddo wybodaeth gyflawn a dibynadwy i lunio cyllidebau ystyrlon.

12 Mae gan y Cyngor amrywiaeth o ddata sy'n dangos dealltwriaeth o'r galw am y gwasanaeth yn y tymor canolig i'r hirdymor. Mae enghreifftiau’n cynnwys:

- Adroddiad i'r pwyllgor craffu ym mis Tachwedd 2025 yn dangos rhagamcanion ar gyfer pobl dros 65 a thros 85 oed hyd at 2040;
- Rhagamcanion gan RPB Gogledd Cymru ar gyfer y galw am gartrefi gofal hyd at 2034; a
- Nifer rhagamcanol o bobl 18 oed a hŷn sydd â salwch hirdymor cyfyngol, 2014 i 2035. (Data i'r pwyllgor craffu ym mis Medi 2025).

Mae casglu data hirdymor gan y Cyngor yn helpu i alluogi gwaith cynllunio strategol hirdymor.

13 Mae tîm ARC wedi mynd ati i nodi bylchau yn y data y mae'n ei ddefnyddio. Fel rhan o'r gwaith parhaus i wella'r broses o bennu'r gyllideb, nododd y Cyngor yr angen am ddata cryfach i gefnogi'r incwm a ragwelir. Mae ymgorffori adolygiad mewnol yn y broses o bennu cyllidebau yn helpu i fireinio rhagamcanion yn barhaus.

14 Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn gwella ei allu i ddadansoddi data. Er enghraifft, mae wedi recriwtio dau ddadansoddwr data i wella ei ddealltwriaeth o'r bylchau yn ei wybodaeth. Gall hyn gynorthwyo'r Cyngor i wella cywirdeb ei gyllideb yn y dyfodol.

## Mae'r Cyngor yn defnyddio data'n dda i gynllunio ei gyllidebau ar gyfer gofal preswyl i oedolion yn y dyfodol

15 Mae'r Cyngor yn meincnodi'n ffafriol â chyrff cymharol priodol. Mae'n gosod meincnodi ar gyfer dadansoddiad tueddiadau a data gosod ffioedd, ledled Cymru ac ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru. Mae enghreifftiau o feincnodi yn cynnwys astudiaethau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) Gogledd Cymru a chyfarfodydd misol gyda phenaethiaid gwasanaeth ar gyfer ARC yng Ngogledd Cymru. Yna, mae tîm ARC yn addasu'r data hwn ar gyfer gwybodaeth benodol i Gonwy, gan gynnwys gwybodaeth ddemograffig. Mae defnydd cymysg y Cyngor o ddata cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer rhagweld.

16 Mae gan y Cyngor ddull clir o bennu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol:

- Defnyddir y gorwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn lawn yn y flwyddyn gyllidebol bresennol fel sail ar gyfer y flwyddyn ganlynol.
- Cyfrifir codiad yn sgil chwyddiant ar gyfer dadansoddiad manwl o gostau.
- Mae'r Cyngor yn cyfrifo pwysau’r galw gan ddefnyddio niferoedd rhagamcanol y preswylwyr yn seiliedig ar ddadansoddiad tueddiadau. Mae'n addasu'r rhagolwg hwn i adlewyrchu barn broffesiynol a gwybodaeth meincnodi. Fodd bynnag, nid yw'n cofnodi ei farnau proffesiynol yn fanwl.

Mae dull clir a strwythuredig yn helpu'r Cyngor i bennu cyllidebau sy'n seiliedig ar ddata. Mae defnyddio'r manylion hyn yn helpu'r Cyngor i nodi meysydd risg a gwella ei ddull gweithredu yn y dyfodol.

17 Darparodd y Cyngor dystiolaeth o reoli pwysau costau hirdymor a defnyddio data i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- buddsoddi mewn adfer gallu i fanteisio i'r eithaf ar brofiad gofal preswylwyr wrth reoli costau;
- buddsoddi mewn fflatiau adfer tymor byr i gynnal annibyniaeth tymor hwy;
- ehangu cyfleusterau gofal dementia yn seiliedig ar ddata a oedd yn dangos anghenion gofal cymhleth cynyddol.

Mae defnyddio data i lywio penderfyniadau yn helpu i ddiwallu anghenion preswylwyr yn effeithiol, wrth reoli adnoddau'n effeithlon.

## Mae'r Cyngor yn parhau i wella effeithiolrwydd ei broses pennu cyllideb

18 Mae'r Cyngor yn monitro'r gyllideb yn rheolaidd i'r sefyllfa allyriadau yn ystod y flwyddyn. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn cynnwys:

- data pwynt gwirio misol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru;
- deg cyfarfod y flwyddyn o ddeiliaid cyllideb gwasanaeth i adolygu'r allbwn yn erbyn y gyllideb;
- cyfarfodydd goruchwylio strategol chwarterol yn cynnwys y swyddog Adran 151.

Mae monitro rheolaidd ar y canlyniadau o gymharu â'r gyllideb yn darparu sylfaen dda ar gyfer cefnogi'r broses o osod cyllideb yn effeithiol.

19 Mae lliniaru risg y Cyngor ar gyfer gorwariant mewn gofal cymdeithasol i oedolion yn canolbwyntio ar leihau effaith drwy ddod o hyd i doriadau gwasanaeth yn ystod y flwyddyn neu ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau. Nodir hyn fel tebygolrwydd cymedrol i uchel yng nghyllideb 2026-27, gydag effaith bosibl o hyd at £5 miliwn. Gall gwella methodoleg gyllidebu'r Cyngor leihau'r tebygolrwydd o orwario sylweddol.

20 Mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r hyn a ddysgodd o'i ddealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng gwariant a'r gyllideb:

- Mae gan swyddogion wybodaeth fanwl am y broses o bennu'r gyllideb.
- Mae swyddogion yn dysgu o'r blynyddoedd blaenorol ac wedi gwella eu dull gweithredu.
- Mae'r Cyngor wedi ystyried ffactorau allanol i addasu rhagamcanion, megis effaith pandemig COVID-19 a newidiadau i ddeddfwriaeth.

21 Drwy adolygu a gwella'r broses o bennu'r gyllideb yn barhaus, mae'r Cyngor yn cynyddu'r tebygolrwydd o gynllunio cyllidebau mwy cywir, fel y dangosir gan y canlyniadau dros y tair blynedd diwethaf [gweler **Arddangosyn 1**].

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â’n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Roedd yr archwiliad yn ymdrin â defnydd y Cyngor o ddata wrth gynllunio ei gyllidebau ar gyfer y gwasanaeth seiliedig ar alw, sef Gofal Preswyl i Oedolion. Roedd hyn yn cynnwys gofal preswyl a nyrsio i oedolion 18 oed a hŷn, boed hynny'n cael ei ddarparu'n uniongyrchol neu wedi'i gomisiynu. Ystyriodd a oes gan y Cyngor y wybodaeth sydd ei hangen arno, ac a yw'n defnyddio data – a sut y mae'n gwneud hynny – i lywio'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gwasanaethau seiliedig ar alw, er mwyn cefnogi cynaliadwyedd ariannol hirdymor. Adolygodd hefyd a oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod cynllunio'r gyllideb yn ARC yn effeithiol ai peidio.

## Cwestiynau’r archwiliad a’r meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Atebodd ein harchwiliad y cwestiynau canlynol:

- A oes gan y Cyngor y wybodaeth sydd ei hangen arno wrth gynllunio ei gyllideb ar gyfer gwasanaethau seiliedig ar alw?
- A yw'r Cynghorau'n defnyddio data i lywio'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gwasanaethau seiliedig ar alw?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod cynllunio cyllidebau ar gyfer gwasanaethau seiliedig ar alw yn effeithiol?

### Meini prawf

Wrth ddatblygu'r meini prawf archwilio, rydym wedi defnyddio canllawiau mis Tachwedd 2020 gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gynllunio i ddarparu gwerth da mewn gwasanaethau seiliedig ar alw. G wnaethom hefyd ychwanegu at hyn gyda'n gwybodaeth a'n profiad cronnol o archwilio, a gawn wrth gynnal archwiliadau ariannol ac archwiliadau perfformiad.

## Dulliau

Defnyddiodd yr archwiliad y dulliau canlynol:

- adolygu dogfennau – adolygwyd dogfennau perthnasol y Cyngor, megis y gyllideb a phapurau'r pwyllgor;
- dadansoddi data – gwnaethom edrych ar ddata a ddefnyddiwyd gan y Cyngor wrth bennu ei gyllideb;
- cyfweliadau – gwnaethom gyfweld â swyddogion allweddol, gan gynnwys:
  - Swyddog Cyllid
  - Pennaeth Gwasanaethau
  - Rheolwr Gwasanaeth Safonau Ansawdd a Chomisiynu
  - Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Anabledd (ar gyfer oedolion a phlant drwy gydol oes)
  - Rheolwr gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau i Bobl Agored i Niwed (yn cynnwys iechyd meddwl a phobl sy'n gadael gofal)
  - Swyddog Adran 151

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â rhai cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni eu gwaith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill o Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir i ddisgrifio Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain a nodir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.